



30.03.2022

Annwyl Riant/Ofalwr,

Ysgrifennaf atoch i roi gwybod i chi am rai newidiadau pwysig y byddwn yn eu rhoi ar waith yr wythnos nesaf i gyfoethogi profiad addysgol eich plentyn yma yn Ysgol Aberconwy!

Rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol bod nifer cynyddol o fyfyrwyr yn gwneud cais i'n hysgol, ac er bod hyn bob amser yn braf i'w glywed, gall fod yn her darparu ar gyfer pob un ohonynt – yn enwedig pan fyddant yn cyrraedd grŵp blwyddyn sefydledig yng nghanol y flwyddyn ysgol.

Dyma'n union a ddigwyddodd ym Mlwyddyn 9, ac felly rydym wedi penderfynu ehangu nifer y dosbarthiadau cofrestru yn y grŵp blwyddyn a nifer y grwpiau mewn rhai meysydd pwnc. Bydd hyn yn golygu y bydd maint dosbarthiadau yn y rhan fwyaf o bynciau yn lleihau ac o ganlyniad bydd eich plentyn yn cael mwy o gefnogaeth a sylw yn y gwersi ac yn ystod amser dosbarth. Bydd hefyd yn golygu os byddwn yn parhau i dderbyn ceisiadau i'r ysgol, bydd gennym le ar eu cyfer heb effeithio'n andwyol ar eraill.

Yn amlwg, wrth i ni wneud y newidiadau hyn byddwn yn gofalu ein bod yn cynnal grwpiau cyfeillgarwch sydd wedi'u hen sefydlu a sicrhau bod myfyrwyr yn aros mewn setiau yn unol â'u gallu lle mae hynny'n wir ar hyn o bryd. Yn ogystal, er y dylai'r newidiadau hyn fod o fudd i bawb yn y grŵp blwyddyn, nifer cymharol fach yn unig fydd yn newid grwpiau dosbarth cofrestru neu dddosbarthiadau addysgu.

Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod hwn yn gyfnod cyffrous i fod yn rhan o gymuned ein hysgol, ac y byddwch yn dawel eich meddwl o ran ein hymrwymiad i ddarparu'r profiad gorau posibl gyda'r adnoddau sydd gennym. Byddwn yn rhoi amserlenni newydd i'r myfyrwyr yr effeithir arnynt yn ddiweddarach yr wythnos hon, ac yn rhoi'r newidiadau ar waith ar Ebrill 4^{ydd}, felly os oes gennych unrhyw bryderon neu gwestiynau rhwng nawr a diwedd y tymor mae croeso i chi gysylltu â ni.

Gyda llawer o ddiolch,

Yn gywir iawn,

Ian Gerrard

Pennaeth

INSPIRE | SUPPORT | SUCCEED

YSBRYDOLI | CEFNOGI | LLWYDDO

MORFA DRIVE
CONWY LL32 8ED

+44 (0)1492 593243
+44 (0)1492 592537

INFO@ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
WWW.ABERCONWY.CONWY.SCH.UK



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE